# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 20FED MAWRTH, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 12 Mawrth 2026)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Arwyn Herald Roberts (Cadeirydd)

Elfed Williams

Gareth Williams

Annwen Hughes (Eilydd)

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 7

PORTMEIRION CYFYNGEDIG, CAE DREIF A MAES PARCIO CASTELL DEUDRAETH, PORTMEIRION, MINFFORDD, PENRHYNDEUDRAETH, LL48 6EN

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
9. Swyddog Cyfreithiol y Cyngor i grynhoi gofynion y cais

**Atgoffir oll o’r pedwar egwyddor i’w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **20 O FAWRTH 2026** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – PORTMEIRION CYFYNGEDIG, CAE DREIF A MAES PARCIO CASTELL DEUDRAETH, PORTMEIRION, MINFFORDD, PENRHYNDEUDRAETH, LL48 6EN** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Portmeirion Cyfyngedig. Cais yw hwn ar gyfer cais i gynnal hyd at bedwar digwyddiad awyr agored yn flynyddol rhwng Mis Mai a Medi. Bwriedir cynnal digwyddiadau trwyddedadwy, sy'n cynnwys cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw a gwerthu alcohol i'w yfed ar yr eiddo.

1.2 Mae'r ymgeisydd yn ceisio am drwydded eiddo i: Werthu alcohol (ar yr eiddo), chwarae cerddoriaeth byw ac wedi recordio rhwng 18:00 – 23:00, ar nos Wener a nos Sadwrn yn ystod digwyddiadau.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| **Trwydded Arfaethedig** |
|---|
| **Cyflenwi Alcohol: Ar yr Eiddo**<br>Dydd Sul/Sunday:<br>Dydd Llun/Monday:<br>Dydd Mawrth/Tuesday:<br>Dydd Mercher/Wednesday:<br>Dydd Iau/Thursday:<br>Dydd Gwener/Friday: 18:00 – 23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 18:00 – 23:00 |
| **Cerddoriaeth Fyw: Awyr Agored**<br>Dydd Sul -<br>Dydd Llun -<br>Dydd Mawrth -<br>Dydd Mercher -<br>Dydd Iau -<br>Dydd Gwener 18:00 - 23:00<br>Dydd Sadwrn 18:00 - 23:00 |

**Cerddoriaeth wedi ei Recordio: Awyr Agored**
Dydd Sul -
Dydd Llun -
Dydd Mawrth -
Dydd Mercher -
Dydd Iau -
Dydd Gwener 18:00 - 23:00
Dydd Sadwrn 18:00 - 23:00

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Bydd y Trwyddedai yn sicrhau y bydd yr holl staff yn ymgymryd a hyfforddiant yn eu cyfrifoldebau mewn perthynas a gwerthu alcohol, yn enwedig o ran meddwod a phobl dan oed.
- Ni chyflenwir unrhyw ddiod feddwol i'w hyfed oddi ar y safle.
- Archwilir bagiau ac eiddo mynychwyr cyn cael mynediad i'r safle ac ni chyflenwir unrhyw ddiod feddwol ac eithrio ddeiliad tocyn dilys.
- Bydd y trwyddedai yn gosod system deledu cylch cyfyng gynhwysfawr yn y safle a chaiff ei gweithredu a'i chynnal yn y safle a bydd y system CCTV yn cydymffurfio a'r pwyntiau canlynol: Bydd camerâu wedi eu lleoli i arsylwi'r gatiau mynediad a'r allanfa i'r safle. Bydd camerâu sy'n edrych ar ardaloedd llawr ag ongl lydan i roi trosolwg o'r safle ac yn medru darparu cofnod cysylltiedig o ddyddiad, amser a lleoliad unrhyw ddelwedd a bydd monitor i adolygu delweddau a recordiwyd.
- Ni chaiff plant fynediad heb fod dan ofal oedolyn cyfrifol.
- Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gydymffurfio gyda holl ofynion y sefydliadau unigol a gynrychiolir ar y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau a chyflwyno a gweithredu ar gynnwys dogfennau megis Cynllun Rheoli Digwyddiad

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad.

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan | Dim gwrthwynebiad |
| Tîm Bwyd, Gwarchod y Cyhoedd | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Llygredd Gwarchod y Cyhoedd | Sylwadau ar y cais |
| Gwasanaeth Cynllunio | Dim gwrthwynebiad |
| Aelodau o'r cyhoedd | Dim gwrthwynebiadau |

## 4. Sylwadau Iechyd Yr Amgylchedd

4.1 Fe dderbyniwyd sylwadau gan Gwasanaeth Llygredd Gwarchod Y Cyhoedd - gyda sylwadau mewn perthynas a'r amcanion trwyddedu o

- Atal niwsans cyhoeddus

4.2 Nid oes gwrthwynebiad i'r bwriad mewn egwyddor. Mae potensial i sŵn cerddoriaeth chwyddedig o'r cyngherddau greu niwsans cyhoeddus mewn eiddo preswyl cyfagos wedi ei adnabod.

4.3 Er mwyn cwrdd ag un o brif amcanion y gyfundrefn drwyddedu sef atal niwsans cyhoeddus argymhellir amodau i'w cynnwys fel rhan o unrhyw ganiatâd.

4.4 Ni fydd lefel y sŵn adloniant a gynhyrchir yn ystod digwyddiad goruwch yr hyn a fanylir yn nhabl 1 isod, rhwng 18:00 a 23:00, 1 mesur o bared unrhyw eiddo sensitif i sŵn yn yr ardal leol.

4.5 Mae'r ymgeisydd wedi cytuno eisoes i dderbyn yr amodau rheoli swni ar yr atodlen weithredol petai y cais yn cael ei gymeradwyo.

4.6 Bydd nifer y digwyddiadau wedi eu cyfyngu i 4 dros unrhyw gyfnod o 12 mis.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn atodol.

## 5. ARGYMHELLIAD

**Yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, argymhellir fod y Pwyllgor yn caniatáu y cais yn unol a'r cytundeb sydd wedi bod gyda'r ymgeisydd i ychwanegu mesurau rheoli sŵn ar y drwydded**